Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

19/11/26

Annwyl Rieni,

Etholiad Rhiant-Lywodraethwyr- Cawsom bum enwebiad ar gyfer y ddau le gwag ar y Corff Llywodraethol ar gyfer Rhiant-Lywodraethwyr newydd. Diolch yn fawr i'r pum ymgeisydd sydd wedi dod ymlaen.

Bydd papurau pleidleisio a manylion y broses etholiadol yn cael eu hanfon at rieni drwy e-bost yfory. Bydd gan rieni hyd at **4.00pm ddydd Gwener, 30 Tachwedd** i fwrw eu pleidlais. Gweler e-bost yfory am ragor o fanylion. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach wedyn, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

Ymddeoliad Mr Owen Hughes- Fel y gwyddoch, bydd Mr Owen Hughes yn ymddeol o'i swydd fel athro yma yn Ysgol Pen Barras ar ddiwedd y tymor, ar ôl gwasanaethu'r ysgol yn ffyddlon am 30 mlynedd. Os hoffech gyfrannu tuag at gasgliad i Mr Hughes, gallwch wneud hynny drwy swyddfa'r ysgol. Byddwn yn derbyn cyfraniadau hyd at **ddydd Llun, 14 Rhagfyr**. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Tocynnau Cyngherddau Nadolig- Bydd yn bosibl archebu a thalu am docynnau ar gyfer Cyngherddau Nadolig yr ysgol yn fuan drwy ParentPay. Bydd dau docyn ar gael i bob plentyn ar gyfer pob perfformiad. Bydd yr Unedau'n rhannu rhagor o fanylion am drefniadau'r cyngherddau maes o law.

Diwrnod Di-wisg Ysgol- Mae'r GRHA wedi trefnu diwrnod di-wisg ysgol yfory, **dydd Gwener, 20 Tachwedd**. Gall plant ddod ag eitemau i'w gwerthu neu'u defnyddio ar stondinau'r Ffair Nadolig wythnos nesaf. Mae'r GRHA yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau, ond maent yn arbennig o awyddus i dderbyn teganau a llyfrau. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Panto'r Stiwt- Cawsom amser arbennig iawn ar ddechrau'r wythnos wrth ymweld â Theatr y Stiwt i fwynhau perfformiad o bantomime newydd Caryl Parry Jones a Non Parri, *Gwion Bach a Ceridwen y Wrach*. Roedd y sgript gyfoes, ynghyd â'r caneuon gwreiddiol newydd, yn gwneud y perfformiad yn brofiad difyr a chofiadwy i bawb. Diolch yn fawr i **Gyngor Celfyddydau Cymru** am noddi'r costau trafnidiaeth, gan ein galluogi i gadw'r gost mor isel â phosibl i deuluoedd.

Gweithdy Pontio Blwyddyn 5: Gwyddoniaeth a Thechnoleg- Ar fore dydd Mercher, **25 Tachwedd**, bydd disgyblion Blwyddyn 5 yn ymweld ag Ysgol Brynhyfryd i gymryd rhan mewn gweithdy pontio cynradd-uwchradd gyda ffocws ar Wyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd y plant a'r staff yn cerdded i'r ysgol erbyn 9.30yb ac yn dychwelyd i Ysgol Pen Barras cyn diwedd y bore.

Yn gywir,

Dyfan Phillips
Pennaeth
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

19/11/26

Dear Parents,

Parent Governor Election- We received five nominations for the two vacant Parent Governor positions on the Governing Body. Thank you to the five candidates who have come forward.

Ballot papers and details of the election process will be sent to parents by email tomorrow. Parents will have until **4.00pm on Friday, 30 November** to cast their vote. Please refer tomorrow's email for further details. If you have any additional queries, please contact the school office.

Retirement of Mr Owen Hughes- As you know, Mr Owen Hughes will be retiring from his position as a teacher at Ysgol Pen Barras at the end of this term, after serving the school faithfully for 30 years. If you would like to contribute towards a retirement collection for Mr Hughes, you may do so via the school office. We will accept contributions until **Monday, 14 December**. Thank you very much for your support.

Christmas Concert Tickets- It will soon be possible to book and pay for tickets for the school's Christmas Concerts through ParentPay. Two tickets will be available per child for each performance. The Units will share further details regarding concert arrangements in due course.

Non-Uniform Day- The PTA has organised a non-uniform day tomorrow, **Friday, 20 November**. Children are invited to bring items that can be sold or used on stalls at the Christmas Fair next week. The PTA is grateful for any donations but is particularly keen to receive **toys and books**. Thank you in advance for your support.

The Stiwt Pantomime- We had a wonderful time earlier this week when we visited Theatr y Stiwt to enjoy a performance of the new pantomime by Caryl Parry Jones and Non Parri, *Gwion Bach and Ceridwen the Witch*.The contemporary script, together with the new original songs, made the performance an enjoyable and memorable experience for everyone. Many thanks to the **Arts Council of Wales** for sponsoring the transport costs, enabling us to keep the cost as low as possible for families.

Year 5 Transition Workshop: Science and Technology- On the morning of **25 November**, Year 5 pupils will visit Ysgol Brynhyfryd to take part in a primary-secondary transition workshop with a focus on Science and Technology. Pupils and staff will walk to the school, arriving by 9.30am, and will return to Ysgol Pen Barras before the end of the morning.

Yours sincerely,

Dyfan Phillips
Headteacher
Ysgol Pen Barras